OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 2539 (Cy.203) (C.105)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2009

Gwnaed - - - - 15 Medi 2009

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 245(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007(**1**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2009.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Cychwyn

2. Mae darpariaethau canlynol Deddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007, i'r graddau y maent yn ymwneud â Chymru, yn dod i rym ar 1 Hydref 2009—

(a) adran 126 (cyfeirio materion trosedd ac anhrefn at bwyllgorau trosedd ac anhrefn, etc.);

(b) y cofnod yn Rhan 6 o Atodlen 18 (diddymiadau) sy'n ymwneud â Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 (p.48); ac

(c) adran 241(diddymiadau) i'r graddau y maent yn ymwneud â'r cofnod a bennir yn (b) uchod.

Brian Gibbons
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

15 Medi 2009

(**1**) 2007 p.28.

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 (p.28) ("Deddf 2007") ar 1 Hydref 2009 o ran Cymru.

Mae adran 126 yn gwneud diwygiadau i adran 19 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 ("Deddf 2006"), gan gynnwys yn benodol roi is-adrannau 19(3) i (8B) newydd yn lle'r hen rai. Mae'r darpariaethau newydd yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol sicrhau bod gan ei bwyllgor trosedd ac anhrefn (fel y cafodd ei greu o dan adran 19 o Ddeddf 2006) y pŵer i lunio adroddiad neu wneud argymhellion ynghylch materion perthnasol i'r awdurdod lleol, ac iddo sicrhau bod gan unrhyw aelod o'r awdurdod lleol nad yw'n aelod o'r pwyllgor y pŵer i gyfeirio materion perthnasol at y pwyllgor. Mae'r darpariaethau newydd hefyd yn nodi gweithdrefnau penodol y mae'n rhaid eu dilyn pan yw person yn cyfeirio mater perthnasol at yr awdurdod lleol.

Mae'r Gorchymyn hefyd yn cychwyn diddymiad cysylltiedig.

NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae darpariaethau canlynol Deddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 wedi eu dwyn i rym o ran Cymru drwy orchmynion cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

Y ddarpariaeth	*Dyddiad cychwyn*	*Rhif O.S.*
Rhan 1	01.11.2007	2007/3136
Adran 75	13.02.2008	2008/337
Adran 76 (yn rhannol)	01.04.2008	2008/917
77 (yn rhannol)	01.04.2008	2008/917
(y gweddill)	31.12.2008	2008/3110
Adran 78	31.12.2008	2008/3110
Adrannau 79 i 102	13.02.2008	2008/337
Adran 116	01.04.2008	2008/461
Adran 119 (yn rhannol)	12.12.2008	2008/3110
(y gweddill)	01.04.2009	2008/3110
Adran 120	01.04.2009	2008/3110
Adran 121	01.04.2009	2008/3110
Adran 122	01.04.2009	2008/3110
Adran 123	01.04.2009	2008/3110
Adran 124	01.04.2009	2008/3110

Y ddarpariaeth	*Dyddiad cychwyn*	*Rhif O.S.*
Adran 125	12.12.2008	2008/3110
Adran 127	01.04.2009	2008/3110
Adran 128	01.04.2009	2008/3110
Adran 136	01.04.2008	2008/917
Adran 137 (yn rhannol)	01.04.2008	2008/917
(y gweddill)	01.04.2008	2008/591 (Cy.60)
Adran 138	01.04.2009	2008/917
Adran 139	01.04.2008	2008/917
Adran 140 (yn rhannol)	01.04.2008	2008/917
(y gweddill)	01.04.2008	2008/591 (Cy.60)
Adran 144	01.04.2008	2008/917
Adran 145	01.08.2009	2008/3110
Adrannau 146 a 147	01.04.2008	2008/172
Adran 148	31.03.2008	2008/172
Adran 149	31.01.2008	2008/172
Adran 150	01.04.2008	2008/172
Adran 151	31.01.2008	2008/172
Adran 152	01.04.2008	2008/172
Adrannau 153 i 155	31.01.2008	2008/172
Adrannau 156 a 157	01.04.2008	2008/172
Adran 158	01.08.2009	2008/3110
Adrannau 159 i 163	01.04.2008	2008/172
Adran 164	31.01.2008	2008/172
Adran 165	01.04.2008	2008/172
Adrannau 166 a 167	31.01.2008	2008/172
Adrannau 168 i 179	01.04.2008	2008/917
Adran 180	01.04.2009	2008/917
Adrannau 181 a 182	01.04.2008	2008/917
Adran 183 (yn rhannol)	31.01.2008	2008/172
Adran 184	31.01.2008	2008/172
Adran 185 (yn rhannol)	31.01.2008	2008/172
(y gweddill)	08.05.2008	2008/1265
Adran 186	08.05.2008	2008/1265
Adran 187	01.04.2008	2008/172